



Cynllun strategol  
2017-20:  
Blwyddyn tri



**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**  
**Cynllun strategol 2017-20: Blwyddyn tri**

Cynllun strategol i'w gyflwyno i Senedd y DU a Senedd yr Alban yn unol â Pharagraff 8 Atodlen 1  
Gorchymyn Fferyllol 2010

© Cyngor Fferyllol Cyffredino 2019

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon e-bostiwch [communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org) neu ffoniwch ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **020 3713 8000**. Mae modd i chi lawr lwytho'r ddogfen hon o'n gwefan [www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)



# Rhagair: Blwyddyn tri parhad

## Rhagfyr 2019

Ers 2017 rydym wedi bod yn gweithio i gyflawni'r amcanion a nodir yn ein cynllun strategol tair blynedd. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio ein huchelgais i gefnogi a gwella darpariaeth gofal fferyllol diogel ac effeithiol, ac mae hefyd yn disgrifio ein dull strategol a'n hegwyddorion gweithredu o ran gwireddu'r uchelgais hwnnw.

Dros y deuddeg mis diwethaf rydym wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran ein tri phrif amcan, sef sicrhau bod:

- gan y tîm fferyllol y wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen
- fferyllfeydd cofrestredig yn darparu gofal a gwasanaethau diogel ac effeithiol, a bod
- prosesau rheoleiddio fferylliaeth yn effeithiol ac effeithlon

Dyma rai o'n llwyddiannau o ran ein hamcanion allweddol:

- Cyflwyno dull diwygiedig o reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig, yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau arolygu fferyllfeydd am y tro cyntaf a rhannu enghreifftiau o arfer da ac arfer gwael er mwyn i'r tîm fferyllol allu eu defnyddio i wella deilliannau ar gyfer cleifion a'r cyhoedd

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus mawr ar safonau diwygiedig ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynol fferyllwyr
- Lansio canllawiau ar gyfer perchnogion fferyllfeydd yn nodi'r hyn y mae disgwyl i berchnogion fferyllfeydd ei wneud i ddiogelu pobl sy'n derbyn meddyginiaethau ar-lein ac ymgynghori ar ganllawiau ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol
- Cyflwyno gofyniad newydd bod pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn cwblhau trafodaethau gyda chymheiriaid a chofnodion adfyfyrion blynyddol yn rhan o'r broses aiddilysu

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da o ran cyflawni'r amcanion sydd wedi eu nodi yn ein cynllun strategol. Ond wrth i ni baratoi at gam olaf y cynllun strategol hwn, ac edrych tua'r dyfodol, rydym yn ymwybodol bod cymdeithas yn gyffredinol yn wynebu newidiadau arwyddocaol a fydd yn effeithio ar fferylliaeth a rheoleiddio fferyllol. Nodir rhai o'r heriau hyn isod.

Efallai y daw newidiadau creiddiol i'r ffordd y mae'r economi'n gweithredu, oherwydd effeithiau technolegau newydd megis deallusrwydd artifisial a dysgu gan beiriannau. Gallai'r rhain ddod â buddion nas dychmygwyd gynt. Daw peryglon a heriau yn eu sgil hefyd, fodd bynnag. Bydd angen i ni ystyried sut bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a sicrhau ein bod yn gweithio gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd i liniaru'r risgiau hyn.

Rydym wedi gwybod ers dipyn bod pwysau ariannol, newidiadau yn y boblogaeth a heriau o ran iechyd y cyhoedd yn golygu y bydd yn rhaid i'n gwasanaethau iechyd addasu. Mae llywodraethau ar hyd a lled Prydain yn credu bod fferylliaeth yn rhan o'r datrysiaid a bod cyfle arwyddocaol i fferylliaeth ddatblygu a

chyflawni rôl fwy wrth helpu pobl i gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles yn y dyfodol. Dros yr ugain mlynedd nesaf, rydym yn disgwyl y bydd y ganran o boblogaeth y DU sydd dros 65 oed yn cynyddu o 18% i 24%. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ein system iechyd a gofal, i raddau nas gwelwyd o'r blaen. Rydym hefyd yn wynebu heriau parhaus o ran iechyd y cyhoedd, gyda fferylliaeth mewn sefyllfa gref i gyflawni rôl fawr yn mynd i'r afael â nhw.

Llywodraethau, comisiynwyr a'r sector ei hun sydd i benderfynu'n bennaf sut y dylai'r sector newid. Ond mae'n amlwg y bydd y ffordd y mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu'n newid yn sylweddol, gyda fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn fwy tebygol o weithio mewn timau amlddisgyblaethol, a gwasanaethau fferyllol yn defnyddio technoleg newydd mwy, er enghraifft. Fel rheoleiddiwr, rydym yn gwybod y bydd gennym ninnau hefyd rôl bwysig i'w chyflawni – yn gweithio gyda llywodraethau, cleifion, gweithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr ac eraill. Rydym yn deall y bydd hyn yn golygu gweithio'n agos iawn gyda rheoleiddwyr eraill – rheoleiddwyr gofal iechyd a rheoleiddwyr systemau.

Mae fferylliaeth yn newid yn gyflymach nag erioed, ac mae wedi ein hysgogi i weithio ar gynllun tymor hirach. Rydym yn datblygu gweledigaeth 10-mlynedd a chynllun strategol pum-mlynedd ar hyn o bryd, y byddwn yn eu cyhoeddi ac yn eu cyflwyno i Seneddau San Steffan a'r Alban yn 2020. Bydd y weledigaeth a'r cynllun strategol yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn addas i ddarparu rheoleiddio effeithlon ac ymatebol sy'n berthnasol i'r amgylchedd gofal iechyd newidiol. Byddwn yn canolbwyntio mwy o'n hymdrechion ar ragweld ac ymateb yn rhagweithiol i faterion a theilwra ein hymatebion rheoleiddiol i gyflawni'r hyn sydd angen yn y ffordd orau a chyflymaf bosibl.

Bydd angen i ni gadw llygad barcud ar ein gweledigaeth a'n strategaeth er mwyn sicrhau ein bod yn addasu'n gyflym i'r heriau sydd wedi eu disgrifio ac yn galluogi arloesedd cyfrifol wedi ei seilio ar greu gwell deilliannau i gleifion.

Rydym hefyd yn gwybod ein bod mewn sefyllfa unigryw a breintiedig lle gallwn gasglu a rhannu data, ymchwil a gwybodaeth. Gallwn ddefnyddio hyn i:

- roi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd
- ein helpu i ddeall risg mewn fferylliaeth yn well, a
- galluogi ac annog gwelliant yn y sector

Ein nod yw defnyddio data'n fwy effeithiol i werthuso effaith ein gwaith rheoleiddio.

Mae'r uchelgeisiau hyn yn cyd-fynd â'r cyfeiriad y mae polisi cyhoeddus ynghylch rheoleiddio proffesiynol yn symud iddo.

Mae'r strategaeth hon wedi ei chreu i'n galluogi i addasu ac ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu ac i wneud yn fawr o'r cyfleoedd a ddaw i'n rhan, ac rydym yn datblygu ein gweledigaeth 10-mlynedd i wneud hynny hefyd.



**Nigel Clarke**  
Cadeirydd



**Duncan Rudkin**  
Prif Weithredwr

# Yr hyn a wnawn

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol drwy fferylliaeth, ac mae ganddynt hyder ynnddi, oherwydd gwybodaeth, agwedd ac ymddygiad y bobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth.

Mae gennym ni rôl bwysig i'w chwarae. Rydym yn:

- hybu proffesiynoldeb o fewn fferylliaeth
- sicrhau ansawdd fferylliaeth, yn cynnwys ei diogelwch
- cefnogi gwelliannau mewn fferylliaeth

Gwnawn hyn mewn nifer o ffyrdd. Maen nhw'n cynnwys:

- cofrestru a rhestru'n gyhoeddus y gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r fferyllfeydd sy'n darparu gofal i gleifion a'r cyhoedd
- gosod a hyrwyddo'r safonau sydd eu hangen er mwyn gallu cofrestru ac aros ar ein cofrestr
- derbyn sicrwydd, mewn nifer o ffyrdd, bod gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd yn parhau i gynnal ein safonau – a gweithredu'n briodol pan na wnânt
- rhannu'r hyn a ddysgwn drwy ein gwaith gydag eraill
- ymchwilio i bryderon ynghylch pobl neu fferyllfeydd rydym yn eu cofrestru a gweithredu'n gymesur i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ein safonau



# Ein nod strategol

Cefnogi a gwella darpariaeth fferyllol ddiogel ac effeithiol a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth drwy sicrhau bod:

## 1. gan y tîm fferyllol y wybodaeth, yr agwedd a'r ymddygiad angenrheidiol

Mae'r tîm fferyllol yn gallu gweithio mewn ffordd hyblyg ochr yn ochr â gweithwyr ieuchyd a gofal eraill i ymateb yn hyderus i newidiadau yn anghenion pobl a phoblogaethau sydd ag arnynt angen gofal. O ganlyniad, gwneir y defnydd gorau posibl o wybodaeth, agwedd ac ymddygiad pob aelod o'r tîm fferyllol wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol a'u gwella. Daw'r gwelliant hwnnw i fod, i raddau, o'r gwaith a wnawn ni, yn cynnwys cefnogi dysgu a datblygiad parhaus y tîm fferyllol cyfan.

## 2. fferyllfeydd cofrestredig yn darparu gwasanaethau gofal diogel ac effeithiol

Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau i gleifion, yn hytrach na rheolau a gorfodaeth biwrocraidd. Byddwn yn parhau i wella'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio fferylliaeth er mwyn i ni allu defnyddio'n pwerau a'n systemau i asesu a gwella ansawdd ymarfer fferyllol. Byddwn yn addasu ein dulliau rheoleiddio a byddwn yn wirioneddol hyblyg, cymesur ac ymatebol. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i gefnogi'n gwaith.

## 3. rheoleiddio fferyllol yn effeithiol ac yn effeithlon

Rydym yn parhau i ddatblygu a gwella sgiliau a gwybodaeth ein staff, a'r systemau a ddefnyddiant, er mwyn i ni weithio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Bydd ein gweithgareddau'n defnyddio data a gwybodaeth mwyfwy. Bydd datblygu partneriaethau mwy effeithiol gydag asiantaethau rheoleiddio, darparwyr a chomisiynwyr gofal a chyrrff cynrychioladol yn nod gennym. Byddwn yn moderneiddio ein systemau mewnol er mwyn iddynt wasanaethu anghenion aelodau cofrestredig a'r cyhoedd yn well a darparu dull cymesur o reoleiddio.

# Ein dull strategol

Mae'r nod strategol a lefel yr uchelgais rydym wedi eu gosod ar ein cyfer ein hunain yn golygu bod angen i ni weithio mewn ffordd wahanol. Mae angen i ni symud o gysyniadau haniaethol rheoleiddio 'proffesiynol' a 'systemig' a rheoleiddio, yn hytrach, yn y ffordd fwyaf cymesur ac effeithiol bosibl. Byddwn yn canolbwyntio ar yr egwyddorion gweithredola allweddol canlynol.

## Hybu proffesiynoldeb

Credwn mai gwybodaeth, agwedd ac ymddygiad pobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth sy'n darparu'r sicrwydd pennaf i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Ein rôl fwyaf effeithiol yw helpu i hybu amgylchedd y gall proffesiynoldeb ffynnu ynddo a sicrhau bod y safonau a ddisgwylir o fferylliaeth yn adlewyrchu hyn.

## Bod â'r person yn ganolog

Mae cydnabod bod pawb yn unigolyn, a bod anghenion pawb yn wahanol, wrth galon y cyfan a wnawn. Rhaid i ni ddeall ac ystyried hyn wrth wneud ein gwaith. Mae hyn yn wir am bawb – gan gynnwys pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal ehangach a phobl o fewn ein sefydliad ein hun.

## Canolbwyntio ar ganlyniadau

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y canlyniadau rydym am eu sicrhau ar ran pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Bydd hyn yn golygu y gallwn roi hyblygrwydd i weithwyr fferyllol i fod yn flaengar ac i addasu mewn ffordd sy'n gwella ansawdd.

## Hybu dysgu a gwelliant

Byddwn yn gweithio i wella ansawdd fferylliaeth yn barhaus. Byddwn yn casglu gwybodaeth o'n gwaith, a gwaith eraill, er mwyn i ni allu rhannu gwersi a hybu gwelliant. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn ein gwella ein hunain ac yn gweithio yn y ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon.

## Cydweithio

Un rhan ydym ni o system ehangach sy'n sicrhau bod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol gan fferylliaeth ac sy'n sicrhau bod ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth yn cael ei chynnal. Os ydym am lwyddo, rhaid i ni weithio ochr yn ochr â'r bobl sy'n defnyddio fferylliaeth, arweinwyr y maes, rheoleiddwyr eraill a'r sector iechyd a gofal ehangach.

## Cydnabod cyfraniad y tîm fferyllol cyfan

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo sgiliau, gwybodaeth a chyfraniad pawb yn y tîm fferyllol yn cael eu defnyddio er gorau. Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n cydnabod rôl y tîm fferyllol cyfan yn y gwaith o wella a sicrhau ansawdd.

Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad i weithio gyda'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, ac eraill, i wella iechyd, diogelwch a lles pobl Prydain.





---

Cyngor Fferyllol Cyffredinol  
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ  
F 020 3713 8000  
E [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)  
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)  
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)  
[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)